

Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 16 Mai 2017.

Presennol:

Ann Evans, Philip Blaker, Isabel Nisbet, Claire Morgan, Angela Maguire-Lewis, Caroline Burt, Robert Lloyd Griffiths, Ellen Donovan, Rheon Tomos, Alun Llwyd, David Jones.

Yn Bresennol:

Alison Standfast, Kate Crabtree, Jo Richards, Alison Rees (sylwedydd Llywodraeth Cymru), Helen Bushell (Ysgrifenyddiaeth), Kerry Price (yn bresennol ar gyfer eitemau 5 a 6), Emyr George (yn bresennol ar gyfer eitemau 7, 8 a 10), Arun Midha (sylwedydd), Osian Llewelyn (eitem 10), Carys Richards (eitem 14).

Ymddiheuriadau:

Dim

1. Croeso, Ymddiheuriadau, Datganiadau o Fuddiant

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig David Jones ac Arun Midha. Penodwyd David Jones yn aelod o'r Bwrdd o 15 Mai a rhagwelwyd y byddai Arun Midha yn cael ei benodi'n aelod o 18 Mai. Roedd Arun yn bresennol fel sylwedydd.
- 1.2. Ceisiwyd datganiadau o fuddiant. Cafodd y datganiadau newydd canlynol eu datgan:
 - Angela Maguire-Lewis – yn Bennaeth Prentisiaethau yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro
 - Claire Morgan – wedi'i phenodi'n Gadeirydd Menter Cymru ar gyfer Ymgysylltu â Myfyrwyr (WISE)
- 1.3. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr aelodau unrhyw bwyntiau i'w codi o'r papurau gwybodaeth. Codwyd y pwyntiau canlynol:
 - Rheoli risg – nodwyd y bydd risg yn rhan o'r brif agenda dair gwaith y flwyddyn ac yn bapur gwybodaeth ar gyfer cyfarfodydd eraill. Byddai agweddau penodol ar risg yn rhan o gyfarfodydd yn ôl yr angen, er enghraifft roedd risgiau yn ymwneud â chyfres arholiadau'r haf yn rhan o agenda'r cyfarfod heddiw.
 - Cynllun sgiliau – nododd y Bwrdd y gall cyfyngiadau o ran yr etholiadau yn Lloegr effeithio ar yr amserlen ar gyfer cyflwyno Safon T
- 1.4. Cafodd y papurau gwybodaeth eu nodi.

2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2017 a'r Materion sy'n Codi

- 2.1. Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2017 yn gofnod cywir o'r cyfarfod yn amodol ar newid i baragraff 2.3 a mân newidiadau teipograffyddol, a chytunodd y Bwrdd arnynt. Câi'r cofnodion eu cyhoeddi ar wefan Cymwysterau Cymru ar ôl eu cyfieithu.

- 2.2. Bwridd y Bwrdd olwg dros y cofnod o gamau gweithredu a oedd wedi'i ddiweddarau i gynnwys cynnydd. Nododd y Cadeirydd y byddai protocol yn cael ei ddatblygu â Llywodraeth Cymru i fod yn ganllaw i gyhoeddi gohebiaeth.

Materion sy'n Codi

- 2.3. Gofynnodd y Bwrdd am y newyddion diweddaraf ynghylch y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Gofal Cymdeithasol Cymru. Cadarnhaodd PB fod y drafft bron â bod yn barod, ond bod angen gwneud rhagor o waith o ran dyletswyddau a phwerau'r ddau sefydliad. Byddai drafft terfynol yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.
- 2.4. Dywedodd y Cadeirydd fod PB a hithau wedi cyfarfod ag Alun Davies AC (Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes) a bod y cyfarfod, sef sesiwn gyflwyniadol i egluro rôl Cymwysterau Cymru a sut roedd hon yn gysylltiedig â phortffolio'r Gweinidog, wedi bod yn un cadarnhaol.
- 2.5. Gofynnodd y Bwrdd am y newyddion diweddaraf ynghylch yr ohebiaeth â CYDAG. Cadarnhaodd PB ei fod wedi ysgrifennu at CYDAG i egluro rôl Cymwysterau Cymru o ran deunyddiau dysgu ac addysgu a'i fod wedi ymateb i'r ymholiadau a wnaed.

3. Y diweddaraf gan y Cadeirydd

- 3.1. Diolchodd y Cadeirydd i Alison Rees a chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru am gefnogi'r broses Penodiadau Cyhoeddus i benodi dau aelod newydd o'r Bwrdd.
- 3.2. Cynhaliwyd cyfarfod â Chyfarwyddwr Addysg Llywodraeth Cymru. Y prif eitemau a drafodwyd oedd y cymwysterau cyffredinol diwygiedig a fyddai'n cael eu dyfarnu am y tro cyntaf yr haf hwn a'r cynlluniau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- 3.3. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei bod wedi cynnal cyfarfod arfarnu'r Prif Swyddog Gweithredol ar gyfer 2016/17 ac y byddai'n anfon diweddariad cyfrinachol at y Bwrdd. I grynhoi, roedd yr arfarniad yn gadarnhaol iawn. Ni ddaeth unrhyw faterion na phryderon i'r amlwg, a gellid dweud bod y Prif Swyddog Gweithredol wedi cael blwyddyn ragorol.
- 3.4. Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi bod Angela Maguire-Lewis wedi cytuno i barhau fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Byddai hyn yn cael ei adolygu yn ystod hydref 2017 pan fyddai AML yn gallu barnu'r ymrwymiad amser yn well. Diolchodd y Cadeirydd i Angela am ymgymryd â'r rôl hon.
- 3.5. Ar ôl trafodaethau blaenorol, roedd y Cadeirydd wedi ystyried trefniadau i sicrhau bod dirprwy Gadeirydd ar gael i gadeirio cyfarfodydd y Bwrdd pan na fydd yn bresennol ac at ddibenion parhad busnes. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai Claire Morgan neu Robert Lloyd Griffiths yn ymgymryd â'r rôl hon yn ôl yr angen.

- 3.6. Nododd y Cadeirydd fod digwyddiad ymgysylltu â staff wedi'i drefnu ar ran y Bwrdd fel rhan o Gynllun Gweithredu'r Bwrdd, ac y bydd hwn yn cael ei gynnal amser cinio. Byddai hwn yn cynnwys dau aelod o'r Bwrdd yn rhannu eu profiadau fel rhan o'r wythnos Dysgu yn y Gweithle. Yn fwy eang, byddai'n gyfle i'r aelodau siarad â'r tîm staff a dod i'w adnabod yn well. Y digwyddiad hwn fyddai'r cyntaf o gyfres o ddigwyddiadau tebyg.
- 3.7. Wrth edrych ymlaen, nododd y Cadeirydd fod PB a hithau yn cyfarfod â Julie James AC (y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth) ar 10 Gorffennaf 2017.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cafodd diweddariad y Cadeirydd ei nodi gan y Bwrdd.

4. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

- 4.1. Cyflwynodd Philip Blaker (PB) ei bapur gan nodi rhai meysydd penodol i'w diweddarau a'u trafod:

Cyfres Arholiadau'r Haf

- 4.2. Cafodd hwn ei nodi gan PB fel un o'r meysydd gwaith mwyaf pwysig, a dywedodd fod y sefydliad yn barod ar gyfer yr haf. Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi yn nes ymlaen yn y cyfarfod.

Cymeradwyo Cymwysterau Cyffredinol 2017

- 4.3. Cadarnhaodd PB fod y gwaith o gymeradwyo cymwysterau cyffredinol ar gyfer pynciau i'w haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2017 bellach wedi'i gwblhau. Diolchodd PB i Jo Richards, Kate Crabtree a'u timau am gyrraedd y garreg filltir bwysig hon. Diolchodd y Bwrdd iddynt hefyd.
- 4.4. Rhoddodd PB wybod i'r Bwrdd bod CBAC wedi diweddarau manylebau TGCh yn ddiweddar; cytunwyd ar y gwaith diweddarau hwn tra'n disgwyl canlyniad adolygiad y Sector TGCh.
- 4.5. Yn ôl Cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio, roedd y gwaith a wnaed i gwblhau'r cymeradwyaethau hyn wedi gwneud argraff dda iawn ar y Pwyllgor Rheoleiddio.

Prosiect Casglu Data

- 4.6. Rhoddodd PB y newyddion diweddaraf i'r Bwrdd ynghylch y prosiect a natur y data sy'n cael eu casglu at ddibenion ymchwil a chyhoeddiadau ystadegol. Roedd cam cwmpasu'r prosiect wedi hen ddechrau. Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru ac yntau gymeradwyo gweithgarwch tendro i ddod o hyd i ateb technegol os bydd cost y prosiect TG yn fwy na £100k.

- 4.7. Roedd Ofqual wedi casglu a chyhoeddi data ar ran Cymru (a Gogledd Iwerddon), ond wedi awgrymu na fydd hyn yn parhau. Roedd y penderfyniad hwn yn cyd-fynd â bwriad Cymwysterau Cymru i fod yn weithredol annibynnol. Fel mesur dros dro, roedd Cymwysterau Cymru yn trafod contract byrdymor i Ofqual barhau i ddarparu'r gwasanaethau hyn ar ein rhan.
- 4.8. Trafododd y Bwrdd faint o ddata a allai fod yn angenrheidiol a phwysigrwydd cael y systemau, y protocolau a'r foeseg casglu data briodol ar waith i fod yn sail i'r gwaith pwysig hwn. Cadarnhaodd PB y byddai'r ateb yn cael ei ddatblygu i'r safonau perthnasol.

Cam Gweithredu – KC i ystyried sefydlu grŵp er mwyn ystyried yr arferion a'r protocolau moesegol i gefnogi'r gwaith o gasglu a chyhoeddi data ac ymchwil.

Datblygiadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- 4.9. Cadarnhaodd PB fod y broses gaffael yn mynd rhagddi yn unol â'r amserlen. Roedd gwaith da yn mynd rhagddo o ran ymgysylltu â darpar gynigyddion, ac roedd y tîm yn dod â'r trafodaethau i ben.

Adolygiadau Sector

- 4.10. Yn ôl PB, roedd yr adolygiad o gymwysterau Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig yn mynd rhagddo'n dda ac yn unol â'r amserlen. Roedd cwmpas yr adolygiad o gymwysterau TGCh yn cael ei adolygu a gallai hwnnw arwain at newid i'r amserlen. Pwysleisiodd y Bwrdd ei fod am i'r sefydliad ganolbwyntio ar ansawdd yr adolygiadau, ac nad oedd am iddo roi cynnig ar amserlen heriol os byddai'r ansawdd yn dioddef. Cytunodd y Bwrdd, os nad oedd yr adolygiad o gymwysterau TGCh wedi'i gwblhau tan 2018/19, fod hynny'n dderbyniol.

Asesiadau Cyfrwng Cymraeg

- 4.11. Rhoddodd PB wybod i'r Bwrdd y cafwyd trafodaethau â chyrrff dyfarnu cymwysterau cyffredinol yn Lloegr ynghylch cynnig pynciau nad ydynt yn cael eu hastudio llawer i ddysgwyr yng Nghymru. Disgwylid y byddai'r ystod lawn o bynciau nas diwygiwyd yng Nghymru yn cael eu cynnig. Fodd bynnag, roedd yn annhebygol y byddai llawer yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 4.12. Sefyllfa bresennol Cymwysterau Cymru oedd gweithio gyda chyrrff dyfarnu i ddeall eu rhesymau dros beidio â chynnig asesiadau cyfrwng Cymraeg a'u hannog i'w cynnig.
- 4.13. Cydnabu'r Bwrdd nad hwn oedd y sefyllfa orau, ond bod materion gweithredol yn ei gwneud yn anodd iawn cynnig asesiadau cyfrwng Cymraeg ar raddfa fach.
- 4.14. Trafododd y Bwrdd bwerau Comisiynydd y Gymraeg gan nodi y gallai Safonau'r Gymraeg fod yn gymwys i gyrff dyfarnu.

- 4.15. Nododd PB y gallai'r cwricwlwm newydd roi'r cyfle i fynd i'r afael â'r mater.
- 4.16. Holodd y Bwrdd a dylid sefydlu tasglu i ystyried y pwnc, a chadarnhaodd PB fod gweithgor wedi'i sefydlu eisoes.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nodi adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol – NODWYD.

5. Adroddiad Cynllun Busnes (12 mis) 2016/17

- 5.1 Cyflwynodd Helen Bushell (HB) y papur a oedd yn crynhoi'r adroddiad llawn ar flwyddyn 2016/17. Nodwyd bod 18 o 20 o'r blaenoriaethau gweithredol wedi'u graddio'n wyrdd a bod blaenoriaethau 12 ac 19 wedi'u graddio'n ambr. Roedd blaenoriaeth 12 yn ymwneud â pholisïau rheoleiddio ac wedi'i graddio'n ambr oherwydd y cynnydd a wnaed i sefydlu'r polisi Cosbau Ariannol a'r ffaith bod ymgynghoriad yn dibynnu ar waith a wnaed gan Lywodraeth Cymru. Roedd blaenoriaeth 19 yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg, nad oeddent eto yn gymwys i Cymwysterau Cymru ond lluniwyd cynllun gweithredu llawn.
- 5.2 Gwnaeth y Bwrdd drafod y rhesymau dros eu graddio'n ambr a nodi bod blaenoriaeth 19 yn risg isel am nad oedd Cymwysterau Cymru wedi'i restru yn y rheoliadau eto ac yn annhebygol o gael ei restru tan 2018/19. Roedd blaenoriaeth 12 yn flaenoriaeth uwch, a nodwyd bod cynlluniau ar waith i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen ag ymgynghoriadau ar y polisi Cosbau Ariannol.
- 5.3 Nododd y Bwrdd fod blaenoriaeth 20 (swyddogaethau corfforaethol) wedi'i graddio'n wyrdd yn ystod chwarter olaf y flwyddyn ar ôl cael ei graddio'n ambr yn flaenorol, yn bennaf am fod problemau yn ymwneud â MyCSP a sefydlu cangen yr Undeb Llafur wedi'u datrys.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Gwnaeth y Bwrdd adolygu a nodi'r crynodeb o gynnydd yn erbyn pob un o'r Blaenoriaethau Gweithredol – NODWYD.

6. Adroddiad Ariannol 2016/17 a 2017/18 gan gynnwys Proffil Ariannol

Sefyllfa Alldro 2016/17

- 6.1. Cyflwynodd Kerry Price (KP) y papur a oedd yn cadarnhau bod mwy o fanylion wedi'u cynnwys yn y tablau ariannol gan nad oedd pwyllgorau perthnasol wedi cynnal cyfarfod cyn cyfarfod y Bwrdd.
- 6.2. Arweiniodd KP y Bwrdd drwy'r sefyllfa diwedd y flwyddyn ddrafft ar gyfer 2017/18, gan gadarnhau nad oedd y sefyllfa ragamcanol ar gyfer diwedd y flwyddyn wedi newid llawer o'r hyn y soniwyd amdani yn ystod cyfarfod diwethaf y Bwrdd ar 9

Mawrth 2017. Cafodd hyn ei nodi gan y Bwrdd, ac roedd yn falch o weld nad oedd fawr o newid i'r hyn a ragamcanwyd.

- 6.3. Nododd y Bwrdd y byddai Swyddfa Archwilio Cymru ar y safle ym mis Mai a mis Mehefin i gynnal yr archwiliad allanol a'i fod yn edrych ymlaen at gael y cyfrifon a'r adroddiad archwilio allanol ym mis Gorffennaf.

Proffil Cyllideb 2017/18

- 6.4. Cadarnhaodd KP mai £8,217m oedd y dyraniad grant ar gyfer 2017/18, a oedd yn cynnwys y symiau cario ymlaen y cytunwyd arnynt ar gyfer y prosiect data (£100k) a'r rhaglen adnewyddu TG (£75k).
- 6.5. Cyflwynodd KP graffiau proffil yn nodi'r gwariant tebygol. Yn ôl y rhagamcanion, byddai gwariant yn uchel ym mis Mawrth (2018) o ystyried natur llawer o waith, gan gynnwys y cyfnod tebygol ar gyfer hawlio grantiau am asesiadau cyfrwng Cymraeg, a nodwyd y byddai gwaith parhaus yn cael ei wneud gyda thimau drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod gwariant yn cyd-fynd â'r hyn a ragamcanwyd.
- 6.6. Cadarnhaodd KP y byddai adolygiad chwe mis yn cael ei gynnal ym mis Medi 2017. Byddai'r Pwyllgor Adnoddau ac yna'r Bwrdd yn cael adroddiad ym mis Hydref yn unol â'r cynllun.
- 6.7. Holodd y Bwrdd am y cynllun wrth gefn pe byddai'r Prosiect Data yn ddrutach na'r hyn a ragwelwyd. Eglurodd AS fod nifer o opsiynau ar gael, a oedd yn cynnwys lleihau'r cwmpas, newid pa mor gyflym y mae'n mynd rhagddo a dibynnu ar adnoddau datblygwyr mewnol yn unig am agweddau ar y gwaith datblygu. Byddai'r opsiynau hyn yn cael eu hystyried a'u gwerthuso'n llawn os oedd angen ar ôl i gwmpas y prosiect gael ei ddatblygu'n llawn.
- 6.8. Holodd y Bwrdd a ellid dysgu unrhyw wersi o'r gweithgarwch grantiau yn ystod 2016/17 er mwyn lleihau effaith bosibl tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn. Eglurodd KP fod yr amserlen grantiau eisoes wedi'i hadolygu drwy ymgysylltu â chyrff dyfarnu, gan gydnabod bod angen sicrhau cydbwysedd rhwng rheoli'r gyllideb ac anghenion y sector.
- 6.9. Holodd y Bwrdd a ellid hawlio gweddill y symiau cario ymlaen (£325k o'r £500k) yn dyfodol. Cadarnhaodd KP fod modd gwneud hynny os yw'r arian yn cael ei ddefnyddio at y diben arfaethedig. Fodd bynnag, os oes angen yr arian at ddibenion eraill, byddai angen i Lywodraeth Cymru gytuno ar hyn.
- 6.10. Trafododd y Bwrdd y proffil gwariant ar gyfer y chwarter diwethaf a rhai o'r pethau yr oedd hwn yn dibynnu arnynt.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd sefyllfa alldro 2016-17 a phroffil cyllideb 2017-18 – NODWYD.

7. Trosolwg o Gyfres Arholiadau'r Haf

- 7.1 Cyflwynodd Jo Richards (JR) y papur, gan nodi bod y Pwyllgor Rheoleiddio wedi ystyried fersiwn fwy manwl ar 27 Ebrill 2017. Rhoddodd JR hefyd drosolwg o gynnwys arfaethedig diwrnod datblygu'r Bwrdd.
- 7.2 Tynnodd JR sylw'r Bwrdd at y rhaglen fonitro helaeth sydd ar waith ar gyfer cyfres arholiadau'r haf. Gwnaeth JR nodi y byddai nifer o'r cymwysterau diwygiedig yn cael eu dyfarnu am y tro cyntaf yr haf hwn a chadarnhau bod y cymwysterau hyn wedi'u cynnwys yn y rhaglen fonitro.
- 7.3 Eglurodd JR fod yr arolwg ar-lein 'Dweud Eich Dweud' yn cael ei hyrwyddo'n eang mewn ysgolion.
- 7.4 Cyflwynwyd trosolwg o'r cynllun ymgysylltu a oedd yn esbonio rôl grwpiau amrywiol yn y strwythur, gan gynnwys y Grŵp Safonau a Dyfarnu, Grŵp Rheoli'r Broses Cyflwyno Cymwysterau a'r Grŵp Rhannu Gwybodaeth, ynghyd ag amserlen ymgysylltu. Cadarnhaodd JR y byddai dyfarniadau Cymru yn unig yn cael eu hystyried gan y Grŵp Safonau a Dyfarnu.
- 7.5 Roedd cynllun cyfathrebu helaeth ar waith a oedd yn cynnwys cyfathrebu'n uniongyrchol ag ysgolion, yr ymgyrch A* i G sy'n esbonio'r newidiadau i gymwysterau TGAU yng Nghymru, a chyfarfodydd a sesiynau briffio â Llywodraeth Cymru, Undebau Addysgu, swyddogion Llywodraeth Cymru, Aelodau Seneddol, Ysgrifennydd y Cabinet a'r cyfryngau. Byddai cyfres o erthyglau ffocws yn cael eu cyhoeddi ar y wefan a'u hyrwyddo yn eang ym mis Gorffennaf.
- 7.6 Gwnaeth JR roi trosolwg o'r data cofrestru ar gyfer arholiad a geisiwyd gan CBAC a nodi y byddai Ystadegau Swyddogol Ofqual yn cael eu cyhoeddi ddiwedd mis Mai. Esboniodd JR oblygiadau posibl y data hyn i ganlyniadau'r haf.
- 7.7 Gwnaeth y Bwrdd drafod a nodi bod risg y gallai'r canlyniadau cyffredinol gael eu camddechongli.
- 7.8 Cyfeiriodd JR y Bwrdd at yr adran ar risg yn y papur, a gafodd ei thrafod yn fanwl. Nododd JR y risg yn ymwneud â rhyddhau canlyniadau, a gafodd ei rhannu'n flaenorol â'r Pwyllgor Rheoleiddio. Esboniodd JR fod y risg hon wedi'i lleihau a bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrwydd o hyn.
- 7.9 Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio i JR am ei gwaith hi a'i thîm, gan gadarnhau bod y Pwyllgor wedi trafod y rhaglen fonitro yn helaeth a'i fod o'r farn bod y rhaglen yn gymesur â'r gyfres benodol hon, tra'n cydnabod y gweithgarwch monitro dwys a'r adnoddau neilltuedig o ganlyniad i hynny.
- 7.10 Gwnaeth y Bwrdd drafod y papur a nodi'r materion a drafodwyd, gan gydnabod pwysigrwydd cyfres arholiadau'r haf i'r sefydliad.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Gofynnwyd i Fwrdd Cymwysterau Cymru nodi'r dull gweithredu o ran cyfres arholiadau haf 2017 – NODWYD.

8. Cynllun Strategol ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol

- 8.1. Cyflwynodd PB y papur a oedd yn esbonio, ar lefel uchel, y fframwaith strategol arfaethedig a fyddai'n cael ei drafod yn fwy manwl yn ystod diwrnod datblygu'r Bwrdd, yn ogystal â'r fformat a fabwysiadwyd ar gyfer cynlluniau strategol a oedd yn bwriadu gwneud y ddogfen yn fwy cryno. Cadarnhaodd PB fod y Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Rheoleiddio wedi adolygu'r Cynllun Strategol.
- 8.2. Rhoddodd Emyr George (EG) drosolwg manwl o'r Cynllun Strategol ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol, a oedd yn cyflwyno'r pum maes ffocws a'r pum her. Gwnaeth y Bwrdd drafod pob un o'r rhain a chyflwyno sylwadau arnynt.
- 8.3. Gwnaeth EG grynhoi'r gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a wnaed drwy'r sector cyfan a'r adborth a gafwyd, a oedd yn gadarnhaol ac yn gefnogol.
- 8.4. Nododd y Bwrdd ansawdd y cynllun a faint o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid a wnaed. Gofynnodd y Bwrdd am ragor o waith ymgysylltu â'r sector Addysg Uwch a gwaith ymgysylltu â chyrrff dyfarnu cymwysterau cyffredinol y tu allan i Gymru.
- 8.5. Nododd y Bwrdd yr amserlen gyhoeddi arfaethedig a'r dulliau cyfathrebu.
- 8.6. Yn dilyn trafodaeth, cymeradwyodd y Bwrdd y cynllun yn amodol ar wneud rhai newidiadau. Mae'r rhain fel a ganlyn:
 - Maes ffocws 1 – ychwanegu disgrifiad cliriach o safonau a thegwch i ymgeiswyr
 - Maes ffocws 2 – ychwanegu datganiad am ddiben cymwysterau cyffredinol
 - Heriau – roedd angen i'r rhain gael eu cyfleu'n gliriach mewn manau er mwyn sicrhau eu bod yn glir ac yn gywir
 - Ychwanegu trosolwg o sut y bydd y cynllun yn cael ei fesur

Cam Gweithredu: EG i addasu'r cynllun fel y cytunwyd drwy gynnwys yr eitemau a restrir uchod yn 8.6

Cam Gweithredu: EG i sicrhau bod rhagor o waith ymgysylltu yn cael ei wneud â'r sector Addysg Uwch a chyrrff dyfarnu cymwysterau cyffredinol y tu allan i Gymru

Crynodeb o'r Argymhellion:

Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r canlynol:

- i. Y cynllun strategol ar gyfer cymwysterau cyffredinol, yn amodol ar unrhyw fân newidiadau ar gais y Bwrdd – CYMERADWYWYD i'w addasu drwy wneud y newidiadau a nodwyd ym mharagraff 8.6.

- ii. Y dull gweithredu a'r amserlen arfaethedig ar gyfer cyhoeddi'r cynllun strategol ar gyfer cymwysterau cyffredinol erbyn diwedd tymor yr haf – CYMERADWYWYD.

9. Polisi Rheoli Digwyddiadau Rheoleiddio

- 9.1. Cyflwynodd KC y papur a oedd yn cadarnhau bod y Bwrdd wedi cymeradwyo'r polisi yn flaenorol adeg sefydlu Cymwysterau Cymru a chyn sefydlu gweithdrefnau. Roedd y papur wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu arferion presennol. Ystyriwyd y newidiadau i'r polisi yn rhai gweithdrefnol a mân, ond roedd angen i'r Bwrdd eu cymeradwyo yn unol â'r cynllun dirprwyo.
- 9.2. Holodd y Bwrdd am y newidiadau i sawl rôl yn y polisi o ran dirprwyo. Er enghraifft, roedd y Prif Swyddog Gweithredol yn chwarae rôl fwy yn flaenorol, ond byddai'r Pennaeth Monitro a Chydymffurfio yn cyflawni'r cyfrifoldebau yn y polisi newydd. Yn ôl KC, cafodd y polisi cyntaf ei ddatblygu pan oedd y sefydliad yn newydd iawn, a rhagwelwyd y byddai'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau rheoleiddio yn rhai mwy difrifol. Fodd bynnag, daeth i'r amlwg nad oedd y digwyddiadau a gofnodwyd mor ddifrifol â hynny a'i bod yn fwy priodol dirprwyo rhai rolau a rhoi gweithdrefnau uwchgyfeirio priodol ar waith.
- 9.3. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio ei bod o'r farn bod y newidiadau arfaethedig yn gymesur â'r sefydliad a'i aeddfedwydd presennol.
- 9.4. Holodd y Bwrdd am agweddau eraill ar y polisi, gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer ymateb. Cafodd y Bwrdd ei sicrhau gan JR nad yw'n cymryd yr holl amser hwn i ymateb ac, yn aml iawn, rhoddir ymateb o fewn 24 i 48 awr. Gwnaeth y Bwrdd hefyd ymchwilio i'r protocol o ran pryd i hysbysu Llywodraeth Cymru o ddigwyddiadau perthnasol.
- 9.5. Gwnaeth y Bwrdd drafod y polisi a chymeradwyo'r newidiadau arfaethedig.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y Polisi Rheoli Digwyddiadau Rheoleiddio – CYMERADWYWYD.

10. Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg

- 10.1. Ymunodd Osian Llewelyn (OL) â'r cyfarfod. Gwnaeth EG gyflwyno'r papur a chydnabod y gwaith a wnaed gan aelodau'r tîm i ddatblygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.
- 10.2. Bwriad y Memorandwm oedd cefnogi ein gwaith o ddatblygu polisi i reoleiddio cenedl ddwyieithog. Roedd perthynas waith gadarnhaol yn bodoli â Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg a chynhaliwyd sawl cyfarfod i drafod a datblygu cynnwys y Memorandwm.

- 10.3. Cyflwynodd OL y newidiadau a wnaed i'r Memorandwm yn sgil ceisio cyngor cyfreithiol. Cafodd y rhain eu nodi gan y Bwrdd.
- 10.4. Trafodwyd y Memorandwm, ei gynnwys a'i ddiben ac, yn dilyn trafodaeth, cafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cafodd y papur a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth eu hadolygu a'u CYMERADWYO – CYMERADWYWYD.

11. Cynllun Dirprwyo'r Bwrdd

- 11.1. Cyflwynodd HB y papur gyda'r newidiadau arfaethedig i'r cynllun dirprwyo. Yn ôl y Bwrdd, cafodd y ddogfen ei chymeradwyo ym mis Ionawr 2016. Cafodd yr atodiad a oedd yn cynnwys amserlen yr awdurdodau ariannol ei adolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Risg a'i gymeradwyo wedi hynny gan y Bwrdd ym mis Hydref 2016.
- 11.2. Roedd yr adolygiad yn un amserol o ran y dirprwyaethau ehangach ac nid oedd yn cynnwys unrhyw newidiadau i amserlen yr awdurdodau ariannol.
- 11.3. Cyflwynodd HB y newidiadau arfaethedig, a drafodwyd gan y Bwrdd. Cytunwyd ar y newidiadau canlynol:
- Dylid cyfeirio at bwyllgorau fel 'pwyllgorau' ac nid 'is-bwyllgorau'
 - Yn adran 9.2 (polisi), roedd angen gwneud y cynnwys ar ymgynghori yn gliriach, gan wneud y dirprwyaethau yn glir pan oedd Cymwysterau Cymru yn ymateb i ymgynghoriad ac yn cynnal ymgynghoriad

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Gwnaeth y Bwrdd adolygu a CHYMERADWYO'r cynllun dirprwyo – CYMERADWYWYD yn amodol ar y newidiadau a nodwyd ym mharagraff 11.3.

12. Cynllun Gweithredu'r Bwrdd

- 12.1. Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem, gan gadarnhau mai'r drafft olaf oedd y cynllun gweithredu yn dilyn sylwadau ar fersiynau blaenorol. Mae'r cynllun wedi'i ddrafftio yn dilyn archwiliadau iechyd o drefniadau llywodraethu pob Pwyllgor, adolygiad o berfformiad y Bwrdd a sesiynau un i un a gynhaliwyd yn 2016/17. Pwysleisiodd y Cadeirydd fod y cynllun hwn er budd y Bwrdd ac felly'n un i'r Bwrdd fod yn berchen arno.
- 12.2. Gwnaeth HB gyflwyno'r papur a chrynhai'r chwe maes a nodwyd yn y cynllun gweithredu. Gwnaeth y Bwrdd drafod y cynnwys ac, yn amodol ar rai mân newidiadau, gymeradwyo'r cynllun gweithredu.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cafodd Cynllun Gweithredu'r Bwrdd ei adolygu gan y Bwrdd a'i GYMERADWYO – CYMERADWYWYD.

13. Polisi Cwynion Corfforaethol

- 13.1. Cyflwynodd HB y papur, gan gadarnhau bod y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol wedi cymeradwyo'r polisi dros dro (ar ôl i'r Bwrdd ddirprwyo ym mis Mawrth 2017). Roedd y papur a'r polisi a adolygwyd yn ddrafft terfynol a oedd yn cynnwys y sylwadau a wnaed gan aelodau'r Bwrdd yn electronig.
- 13.2. Cadarnhaodd HB fod ein cyfreithwyr wedi adolygu'r polisi, bod y polisi yn seiliedig ar dempled gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'i fod yn dilyn arferion cydnabyddedig presennol.
- 13.3. Gwnaeth y Bwrdd drafod y polisi a'i gymeradwyo, yn amodol ar ystyried y newidiadau canlynol:
 - Cwynion blinderus ac ailadroddus – ystyried drafftio er mwyn cynnig mwy o eglurder
 - Cam 3 apêl fewnol – esbonio y bydd yr achwynydd yn cael ei hysbysu os dylai ysgrifennu at rywun ar wahân i'r Prif Swyddog Gweithredol
 - Esbonio na ddylai aelodau'r Bwrdd fod yn rhan o'r broses gwyno oni bai bod rhaid

Cam Gweithredu: HB i ystyried yr awgrymiadau eraill a wnaed a llunio fersiwn derfynol o'r polisi.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cymeradwyodd y Bwrdd y Polisi Cwynion Corfforaethol, yn amodol ar y pwyntiau a godwyd yn 13.3 – CYMERADWYWYD.

14. Safonau'r Gymraeg

- 14.1. Cyflwynodd HB Carys Richards (CR) i'r cyfarfod. Roedd CR yn arwain y gwaith o ddatblygu'r cynllun gweithredu er mwyn helpu pawb i gydymffurfio â'r safonau a oedd yn debygol o fod yn gymwys.
- 14.2. Defnyddiodd HB gyflwyniad PowerPoint i roi trosolwg o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ei ddiben a'i gynnwys.
- 14.3. Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i'w gwneud yn ofynnol i sefydliadau rhestredig gydymffurfio â safonau ymddygiad o ran y Gymraeg. Roedd Cymwysterau Cymru yn debygol o gael ei restru yng ngrŵp 8. Felly, roedd y safonau yn debygol o fod yn gymwys o 2018/19 neu 2019/20, er nad oedd hyn wedi'i gadarnhau.

14.4. Ein dull gweithredu oedd i groesawu'r safonau a gwerthuso ein cydymffurfiaeth bresennol, gan ddatblygu cynllun gweithredu er mwyn i ni ddeall yr hyn a allai fod yn angenrheidiol i gydymffurfio yn y dyfodol. Mae'r camau nesaf yn cynnwys:

- Cwblhau ein hunanasesiad ein hun
- Datblygu ein cynllun gweithredu
- Datblygu ein polisi
- Diweddarau ein cofrestr risg yn ôl yr angen (pan fydd y cynllun wedi'i gwblhau)
- Dechrau rhoi'r cynllun gweithredu ar waith

14.5. Nododd y Bwrdd bwysigrwydd y safonau ac roedd yn awyddus i weld y cynnydd a wnaed hyd yn hyn. Nododd y Bwrdd hefyd fod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi cynnal archwiliad at wraidd risgiau yn gynharach yn y flwyddyn.

Cam Gweithredu: HB i anfon copi electronig o'r cyflwyniad at y Bwrdd er gwybodaeth.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Cafodd y diweddariad ei nodi gan y Bwrdd – NODWYD.

15. Newyddion diweddaraf y Pwyllgor Rheoleiddio

15.1. Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor y newyddion diweddaraf ynghylch y prif feysydd busnes o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 27 Ebrill. Nid oedd y cofnodion ar gael eto am fod cyfarfod y Pwyllgor a chyfarfod y Bwrdd mor agos i'w gilydd. Roedd y prif eitemau a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ymwneud â'r Cynllun Strategol ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol, cyfres arholiadau'r haf a'r prosiect lechyd a Gofal Cymdeithasol – a gwnaeth y Bwrdd drafod pob un ohonynt yn gynharach yn unol â'r agenda.

15.2. Nododd y Pwyllgor y cofnodion a ddarparwyd o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2017 fel papur gwybodaeth.

Crynodeb o'r Argymhellion:

- i. Nododd y Bwrdd adroddiad y Pwyllgor fel y'i cyflwynwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor – NODWYD.

16. Penderfyniadau a wnaethpwyd y tu allan i'r Pwyllgor

16.1. Nid oedd unrhyw eitemau i'w codi o ran penderfyniadau a wnaethpwyd y tu allan i'r Pwyllgor.

17. Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf

17.1. Cadarnhaodd HB y calendr o gyfarfodydd i ddod. Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 20 Gorffennaf 2017.

18. Unrhyw Fater Arall

18.1. Gofynnodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod rannu eu barn ar y ffordd y mae'r Bwrdd wedi ychwanegu gwerth i'r sefydliad / at waith y sefydliad drwy gydol y diwrnod. Rhannodd y rhai a oedd yn bresennol eu barn, ac roedd enghreifftiau yn cynnwys:

- gweld sut roedd trafodaethau a gafwyd gan y Pwyllgor Rheoleiddio wedi arwain at gynnydd ystyrlon (er enghraifft, drwy'r Cynllun Strategol ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol)
- trafodaethau am risg, yn enwedig risgiau cyfres yr haf
- y gwerth a ychwanegwyd drwy roi'r newyddion diweddaraf yn y cyflwyniad ar Safonau'r Gymraeg
- roedd y digwyddiad ymgysylltu â staff yn ystod amser cinio wedi gweithio'n dda ac wedi ychwanegu gwerth
- ymdeimlad cyffredinol bod gan y Bwrdd, pan fydd yn llawn, ystod dda o sgiliau a phrofiad a bod ei aelodau yn ychwanegu gwerth fel grŵp ac yn unigol hefyd
- roedd y drafodaeth ar gasglu data wedi helpu i egluro sut y byddwn yn bwrw ati
- cydnabod yr angen i gael eitemau sy'n seiliedig ar gydymffurfio ar yr agenda a'u cydbwysu â thrafodaethau llai strwythuredig, tymor hwy – roedd hyn wedi gweithio'n dda heddiw

18.2. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw fater arall. Ni chodwyd unrhyw faterion.

Daeth y cyfarfod i ben am 17.10.

Diwedd